**COFNODION DRAFFT**

**Dyddiad:** 13 Hydref 1999

**Amser:** 9.00-12.30

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 2, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Presennol:**

| **Aelodau** | (Etholaeth) |
|---|---|
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German | De Ddwyrain Cymru |
| Brian Gibbons | Aberafon |
| (cymryd lle Ann Jones) | |
| Elin Jones | Ceredigion |
| (cymryd lle Brian Hancock) | |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |

| **Swyddogion** | (Adran) |
|---|---|
| Michael Cochlin | Cyfarwyddwr y Grp Datblygu Economaidd |
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid |

| | |
|---|---|
| Mike Chown | Grp Cyllid |
| Allan Moss | Adran Diwydiant a Pholisi Hyfforddi |

**Adran Ysgrifenyddol**

| | |
|---|---|
| Helen Usher | Clerc |
| Joanne Glenn | Dirprwy Glerc |

**Eitem 1: Sylwadau agoriadol y Cadeirydd**
1.1 Y Cadeirydd:

- Atgoffa'r Pwyllgor bod croeso iddynt siarad yn y Gymraeg neu Saesneg
- Cyflwyno a chroesawu Martyn Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a oedd wedi derbyn gwahoddiad i drafod â'r Pwyllgor sut allai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig gydweithio'n gyffredinol, ac yn benodol i drafod yr ymchwiliad Pwyllgor Materion Cymreig i gronfeydd strwythurol.

**Ymddiheuriadau ac Eilyddion**
1.2 Roedd Brian Hancock (a oedd yn sâl) ac Ann Jones (a oedd ar fusnes etholaethol) wedi anfon eu hymddiheuriadau. Roedd Elin Jones a Brian Gibbons yn mynychu ar eu rhan (yn ôl Rheol Sefydlog 9.13).

**Mater o drefn**
1.3 Roedd rhai aelodau'n holi a oedd y wasg wedi'u briffio ymlaen llaw yngln â phapur cyllid (EDC-08-99 p1w). Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi'i e-bostio i aelodau nos Lun ac wedi'i gyflwyno ar y rhyngrwyd ddydd Mawrth. Nid oedd y Cadeirydd na'r Clerc wedi briffio'r wasg ond efallai fod aelodau'r pwyllgor wedi siarad â'r wasg ar ôl derbyn y papur. Nid oedd tystiolaeth bod y papur wedi'i roi i'r wasg cyn iddo gael ei anfon at aelodau.

**Eitem 2: Cofnodion cyfarfod 29 Medi a 4 Hydref**
2.1 Cytunwyd ar gofnodion y ddau gyfarfod. Rhoddwyd eglurhad am un pwynt – roedd cofnodion cyfarfod 4 Hydref (paragraff 3.3) yn cyfeirio at y Bartneriaeth Gweithlu, ni fyddai'r Gweithlu ei hun yn bodoli.

2.2 Ar faterion yn codi a chamau heb eu gweithredu:

*29 Medi 1999*

*Paragraff 1.4*: Roedd cyfraniad y sector preifat i'r rhaglenni Ewropeaidd wedi'i drefnu ar gyfer 3 Tachwedd ar hyn o bryd. Roedd materion yn ymwneud a seilwaith TG a TCG i'w trafod ar 17 Tachwedd

*Eitem 3 - Gweithredu*: Roedd y crynodeb o ymatebion wedi eu hanfon allan a syniadau pwyllgorau eraill wedi'u

cylchredeg. Roedd Ysgrifennydd y Cynulliad wedi anfon dogfennau diwygiedig at aelodau ac roedd papur ar weithredu wedi'i ddarparu ar gyfer 4 Hydref

*Eitem 4 – Gweithredu*: Derbyniwyd diffiniad o gynhyrchu prif ffrwd gan Rona Fitzgerald a'i anfon at swyddogion ar gyfer gweithredu

*Eitem 5 – Gweithredu:* Roedd y panel o Economegwyr yn parhau i ystyried yr eitemau a godwyd gan y Pwyllgor. Ni ystyriwyd ei bod yn ymarferol i ystyried targedau yng nghyfarfod heddiw oherwydd natur y gwaith. Hysbyswyd aelodau yng nghyfarfod 4 Hydref y byddai targedau'n cael eu trafod ar 3 Tachwedd

*Eitem 6 – Gweithredu:* Cynhyrchwyd papur cyllid diwygiedig ar gyfer y cyfarfod. Cynhyrchwyd papur diwygiedig ar cymhorthion gweithredu hefyd

*Eitem 7 – paragraff 7.4*: Roedd disgwyl i CDdBC gael ei drafod ar 3 Tachwedd, ond oherwydd bod agenda'r cyfarfod yn llawn yn barod ac nad oedd yn debygol y byddai fawr o ddim newydd i'w ychwanegu ar hyn o bryd, penderfynwyd gohirio'r mater i gyfarfod diweddarach

*Hydref 1999*

*Eitem 4*: Roedd sylwadau'r Pwyllgor wedi'u hanfon at Ysgrifennydd y Cynulliad a swyddogion

*Eitem 6*: Nid oedd aelodau wedi gweld y fersiwn diweddaraf o Amcan 3. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gylchredeg y ddogfen

**Gweithredu**

**Ysgrifennydd y Cynulliad** i gylchredeg dogfen Amcan 3 ddiwygiedig i aelodau.

**Eitem 3: Adroddiad llafar Ysgrifennydd y Cynulliad**
3.1 Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cynulliad y datblygiadau diweddar canlynol:

- Roedd y cyn ffatri Lucas yn Ystradgynlais wedi'i phrynu gan Light Industries o Gasnewydd gan greu 250 o swyddi. Roedd hon yn enghraifft i'w chroesawu o gwmni o Dde Cymru'n symud i ardal ar ôl i gwmni rhyngwladol symud allan.
- Roedd wedi bod mewn agoriad cwmni o Awstralia, Air International, ym Mlaenau a oedd wedi sicrhau cytundeb mawr â MC Sheet Metal yn Rhymni. Roedd yn croesawu'r cynnydd mewn isgontractio i gyflenwyr lleol. Nid oedd buddsoddwyr mewnol wedi isgontractio cwmnïau lleol yn y gorffennol ond roedd y sefyllfa hon yn newid a byddai hyn yn gymorth i godi CMC.
- Roedd Bairdwear, cynhyrchydd i Marks & Spencers, yn cau nifer o'i ffatrïoedd yng Nghymru. Yn draddodiadol roedd gan gyflenwyr M&S nifer fawr o ffatrïoedd yng Nghymru ac roedd y ffaith bod M&S wedi symud at gyflenwyr y tu allan i'r Deyrnas Unedig yn cael effaith niweidiol ar ddiwydiant cynhyrchu Cymru.
- Roedd y map Amcan 2 wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn gan lywodraeth y DU. Roedd yn cynnwys rhan sylweddol o dde ddwyrain Cymru, gogledd ddwyrain Cymru a Phowys - pob ardal nad oedd wedi'u cynnwys yn Amcan 1. Byddai'n gamp arwyddocaol gan drafodwyr pe bai'r map yn cael ei gymeradwyo

gan y Comisiwn Ewropeaidd, oherwydd y byddai cyfanswm o 2,170,000 o boblogaeth Cymru'n cael eu cynnwys yn statws Amcan 1 a 2. (270,000 i gael statws Amcan 2 ac 1.9 miliwn i gael statws Amcan 1).

- Roedd arolwg diweddar gan Siambr Fasnach Caerdydd yn nodi rhagolygon da ar gyfer economi Cymru, ac roedd hyn yn galonogol.

3.2 Yn ystod cwestiynau i Ysgrifennydd y Cynulliad gofynnwyd pam bod Talgarth a'r Barri wedi'u gadael allan o fap Amcan 2. Eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod yr uchafswm poblogaeth posibl wedi'i gynnwys a bod hyn yn golygu dewis rhwng cynnwys ardaloedd tlotaf Caerdydd a Chasnewydd neu gynnwys y Barri.

3.3 Gofynnodd aelodau a oedd y ffatri LG yn yr ardal Amcan 2 arfaethedig. Dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad y byddai'n holi am hyn.

3.4 Gofynnodd aelodau os oedd darpariaeth yn y flwyddyn ariannol nesaf i gynnwys gwariant Amcan 2. Ymatebodd swyddogion y byddai oedi cyn i raglenni gael eu gweithredu gan fod y Comisiwn yn gorfod ymateb i fap Amcan 2, byddai trafodaethau'n dilyn a byddai oedi arall wedyn cyn lansio unrhyw raglenni. Nid oedd disgwyl unrhyw wariant yn y flwyddyn ariannol nesaf ac felly roedd yn annhebygol y byddai unrhyw ddarpariaeth yn cael ei gwneud.

**Gweithredu**

Byddai Ysgrifennydd y Cynulliad yn edrych a oedd y ffatri LG o fewn yr ardal Amcan 2 arfaethedig.

**Eitem 4: Cyllid (cynnwys cymhorthion gweithredu)**

4.1 Wrth gyflwyno EDC-08-99 (p1w), eglurodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn am i ragamcan o'r gwariant dros gyfnod y rhaglen, cyllid CDRhE a ddygwyd ymlaen, ffynonellau nawdd punt am bunt a rhagamcan o'r dadansoddiad rhwng CGE ac CDRhE gael eu cynnwys yn y papur. Nid oedd y rhain wedi'u cynnwys ar dudalen 1, ond roeddent yn ymddangos ym mhapur (EDC-08-99(p.8w) a oedd wedi'i gyflwyno yn y cyfarfod.

4.2 Nododd aelodau eu bod yn barod i drafod ond ddim i gadarnhau'r tablau ariannol yn y papur (EDC-08-99 p8w) a oedd wedi'i roi i aelodau ar ddechrau'r cyfarfod. Roedd y papur yn fanwl iawn ac roedd aelodau angen amser i ystyried y wybodaeth yn drylwyr.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- Roedd Papur 1 yn ceisio egluro'r berthynas rhwng lefel yr ymrwymiad oedd ei angen gan y Comisiwn a'r patrwm gwariant tebygol.
- Roedd y Rheoliadau'n caniatáu i'r Comisiwn roi saith y cant o gyfanswm y nawdd CE o flaen llaw wrth wneud yr ymrwymiad cyntaf: gellid ei rannu rhwng y ddwy flynedd gyntaf. Wedi hynny, byddai taliadau'n cael eu gwneud i'r DU gan y Comisiwn ar sail ceisiadau (tair gwaith y flwyddyn) yn seiliedig ar yr union wariant hy mewn ôl-daliadau.
- Wrth edrych ar y tabl ym mharagraff 11, roedd y proffil ymrwymiad yn y flwyddyn gyntaf yn £187 miliwn ac o ganlyniad i hyn (ar ôl creu cyfanswm net taliad ar gyfrif) roedd angen i wariant erbyn diwedd blwyddyn tri fod yn £144.3 miliwn. Er hynny, nid oedd angen i'r gwariant fod ar brosiectau yr ymrywmwyd iddynt ym mlwyddyn 1 o reidrwydd.
- Os mai dim ond taliadau isaf posibl a wnaethpwyd yn y blynyddoedd cynnar byddai angen dal i fyny yn y

blynyddoedd wedyn gan arwain at fwy o wariant yn y blynyddoedd olaf.

- Byddai'r gwariant yn cael ei gyfrif fel gwariant cyhoeddus pan fyddai'n cael ei dalu gan y Cynulliad i brosiectau (yn hytrach na phan fyddai arian yn cael ei dderbyn gan Ewrop).
- Mae'r ffigwr yn Nhabl 21 o £25 miliwn ar gyfer rhaglenni wedi 2000 yn cyfeirio at nawdd Amcan Un oni bai am CGE.
- Gofynnwyd a oedd unrhyw amodau wedi'u gosod gan y Comisiwn a fyddai'n gymwys cyn i'r arian taliad ar gyfrif gael ei dderbyn. Nododd y swyddogion y byddai angen i'r Comisiwn fod yn fodlon â'r tablau ariannol yn nogfen y rhaglen a bod y gofynion o ran ychwanegu wedi'u cwrdd.
- Roedd cywiriad wedi'i wneud i'r gyfradd gyfnewid a grybwyllwyd ar ôl y tabl ym mharagraff 7 - dylai nodi 1.52 iwro mewn £1.
- Cwestiynwyd manylion y £35 miliwn y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 20. Taliad unigol oedd hwn wedi'i wneud ym mlwyddyn ariannol 1998-99 i gynnwys pwysau. Nid oedd darpariaeth debyg ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol. Er hynny, roedd y Swyddfa Gymreig wedi cario £188 miliwn ymlaen i'r flwyddyn bresennol yn ôl y trefniadau hyblygrwydd diwedd blwyddyn, ac roedd rhan o hwn ar gael i'w wario ar CDRhE. Roedd y cyfanswm a gariwyd ymlaen yn cynnwys £46 miliwn o hyblygrwydd diwedd blwyddyn hefyd a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer CDRhE. Ni chyfyngwyd ar hyblygrwydd diwedd blwyddyn i'w ddefnyddio yn y flwyddyn ganlynol, gellid ei gario ymlaen dros fwy na blwyddyn.
- Roedd rhywfaint o syndod bod y ffigwr yn y tabl ym mharagraff 11 ar gyfer rhaglenni cyn-2000 ar gyfer 2000-01 mor uchel â £50 miliwn oherwydd bod hyn yn uwch na'r ffigwr y dywedwyd wrth y pwyllgor amdano ynghynt yn y flwyddyn. Eglurwyd nad arian dros ben o raglenni blaenorol oedd hwn. Roedd swyddogion yn disgwyl £25 miliwn i ddod o raglenni newydd, ond amcangyfrif yn unig oedd y swm hwn. Nid oedd rhai rhanbarthau wedi defnyddio arian Amcan 1 i gyd yn y flwyddyn gyntaf ond nid oedd disgwyl i hyn ddigwydd yng Nghymru lle'r oedd disgwyl i'r arian gael ei wario'n llawer cynt.
- Rhoddwyd sicrwydd y byddai arian yn cael ei ailddyrannu o danwariant o fewn blwyddyn mewn mannau eraill o fewn cyllideb y Cynulliad pe bai'r galw am gyllid i'r rhaglenni CE yn uwch na'r disgwyl.
- Roedd y Comisiwn yn disgwyl i nawdd sector cyhoeddus punt am bunt i gyfated i'r nawdd Ewropeaidd gyda nawdd sector preifat yn ychwanegol at hyn. Roedd barn llywodraeth y DU yn whanaol, sef y dylai fod yn gymysgedd o gyllid sector cyhoeddus a phreifat. Roedd Atodiadau A a B yn EDC-08-99 p8w yn dangos y ddwy senario gwahanol a fyddai'n amodol ar drafodaethau.

**Cyswllt â'r Pwyllgor Materion Cymreig**

4.4 Croesawodd y Cadeirydd Martyn Jones AS, Cadeirydd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig, a'i wahodd i nodi sut oedd yn gweld y berthynas rhwng y Pwyllgor Materion Cymreig a'r Cynulliad yn datblygu.

4.5 Croesawodd Mr Jones y cyfle i gwrdd â'r Pwyllgor a gobeithiai y byddai'n ddechrau cysylltiad buddiol rhwng y ddau bwyllgor. Tynnodd sylw'r aelodau at y canlynol:

- Yn y gorffennol, rôl y Pwyllgor Materion Cymreig oedd archwilio gwaith y Swyddfa Gymreig. Gyda sefydlu'r Cynulliad, roedd y rôl yn newid yn awr i gysylltiadau a gwaith cyn-ddeddfwriaethol. Roedd y Pwyllgor yn ymgymryd â rôl newydd o archwilio deddfwriaeth, ac roedd hwn yn faes lle gallai cydweithio â'r Cynulliad fod yn fuddiol. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried deddfwriaeth yr oedd y Cynulliad wedi gofyn amdani'n benodol a deddfwriaeth oedd ar sail Cymru a Lloegr.
- Roedd gan y pwyllgor Materion Cymreig fynediad i drafod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a gallai wahodd tystion eraill. Roedd cyfarfod ar 21 Hydref i drafod a ddylai'r Pwyllgor gael mwy o fynediad at Ysgrifenyddion Gwladol eraill, oherwydd gallai hyn fod yn bwysig o ystyried y cysylltiadau newydd.
- Roedd Martyn Jones wedi cwrdd â'r Prif Ysgrifennydd a Phanel y Cadeiryddion y diwrnod blaenorol i

drafod sut y gellid datblygu cydweithrediad.

- Roedd y Pwyllgor Materion Cymreig ar fin cychwyn ymchwiliad i gronfeydd strwythurol y CE a byddent yn croesawu syniadau gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd yngln â pha faterion oedd angen eu hystyried, pa un ai oedd y Pwyllgor yn dymuno cymryd rhan a sut y byddai am wneud hynny.
- Pwysleisiodd mai'r nod oedd sicrhau bod Cymru'n manteisio i'r eithaf ar gyllid CE.
- Byddai'r PMC yn cynnal sesiwn dystiolaeth ar 26 Hydref pan fyddai Ysgrifennydd Gwladol Cymru a swyddogion y Trysorlys yn rhoi tystiolaeth.

4.6 Codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y berthynas rhwng y pwyllgorau a rhwng San Steffan a'r Cynulliad yn codi cwestiynau cyfansoddiadol. Byddai'n ddefnyddiol gwybod am drefniadau gweriniaethau aml-lefel eraill i weld sut mae gweinidogion o weinyddiaeth ddatganoledig yn ymwneud â phwyllgorau archwilio'r llywodraeth ganolog.
- Dylai'r Pwyllgor Dethol ystyried a fyddai'r mecanweithiau yn ôl fformiwla Barnett yn briodol o hyd o ystyried graddfa'r cyllid sydd ei angen ar gyfer y rhaglenni Amcan 1, 2 a 3. Roedd y mater o gyllid punt am bunt yn bwysig iawn.
- Teimlai'r Pwyllgor fod gan gymhorthion gweithredu botensial gwych ond bod angen agwedd gydunol gan y ddau Bwyllgor oherwydd bod y mwyafrif o gymhorthion gweithredu, er enghraifft gostyngiadau treth, yn nwylo'r Trysorlys.
- Byddai'n fuddiol i'r Pwyllgor Materion Cymreig archwilio gweinyddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop, a'r posibilrwydd o drosglwyddo'r cyfrifoldebau amdani.

**Crynodeb y Cadeirydd**
4.7 Roedd y Cadeirydd yn croesawu'r cydweithio rhwng y Pwyllgorau. Amlinellodd y meysydd pryder allweddol i'r ddau bwyllgor, sef gweinyddiad Cronfa Gymdeithasol Ewrop ar gyfer Gymru, cyllid punt am bunt rôl y Trysorlys yn hyn a chymhorthion gweithredu. Pwysleisiodd y Cadeirydd bod y ddau bwyllgor yn ategu ei gilydd. Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn cysylltu â'r Pwyllgor Materion Cymreig yngln â'i archwiliad sydd i ddod a rhoi gwahoddiad i gyfraniadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor. Nododd Martyn Jones y byddai'n ddefnyddiol cael copïau o bapurau cyfarfod heddiw.

**Gweithredu**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Y Cadeirydd a'r Clerc i gysylltu â'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig ar ran y Pwyllgor wrth ystyried nawdd Ewropeaidd

Papurau o'r cyfarfod i'w hanfon ymlaen at Martyn Jones

**Tablau Ariannol(EDC-08-99(p.8w))**
4.8 Wrth gyflwyno'r papur ar dablau ariannol (EDC-08-00 p8w) dywedodd y Cadeirydd ei bod yn siomedig nad oedd y Pwyllgor wedi cael amser i ystyried y wybodaeth yn drylwyr. Ymddiheurodd Ysgrifennydd y Cynulliad bod y papur wedi'i gyflwyno'n hwyr, ond nid oedd y wybodaeth ar gael ynghynt. Pwysleisiodd y Cadeirydd dri mater allweddol i'r Pwyllgor eu hystyried:

- Dosraniad cyllid rhwng y pum blaenoriaeth (nodir ym mharagraff 5)
- Y rhaniad rhwng y Cronfeydd Ewropeaidd gwahanol
- Cyfraddau'r cymorth grant a gynigir (rhestrir ym mharagraff 6)

4.9 Roedd y rhaniad rhwng y pum blaenoriaeth fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Busnes | 40.2% |
| Amgylchedd Cystadleuol | 21.1% |
| Cymunedau | 10.4% |
| Cyflogadwyedd | 22.6% |
| Adnoddau naturiol | 6.4% |

4.10 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd tabl 3.2 yn rhagdybio rhaniad 50/50 yn y cyllid punt am bunt ond rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod rhaniad 40/40/20 yn agored i drafodaeth o hyd. Roedd y golofn olaf yn ddisgwyliad o'r swm y gallai'r sector preifat fuddsoddi. Roedd yn rhaid cael punt am bob punt o arian y Comisiwn ond nid oedd gofyniad yngln â faint ddylai ddod o'r sector preifat. Roedd yn rhaid trafod hyn eto.
- Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i gyflenwi ffigyrau ar gyfer y rhaniad disgwyliedig rhwng cyllid sector cyhoeddus llywodraeth ganolog a lleol pan fyddent ar gael.
- Roedd pryderon nad oedd digon o amser i ddosrannu cyllid rhwng y pum blaenoriaeth i'w trafod. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu adnoddau dynol yn ymddangos yn rhy isel. Roedd hyn yn arwydd gwael o'r pwyslais a roddir ar adnoddau dynol.
- Cadarnhaodd swyddogion na ellid symud arian rhwng cronfeydd, er enghraifft rhwng CGE ac CDRhE, ond gellid ei symud o fewn mesurau yn y cronfeydd hyn. Byddai'r Comisiwn yn cynnal arolwg canol tymor ( ar ôl dwy flynedd) i edrych ar danwariant a gorwariant yn y rhaglen. Gellid cyflwyno achos yn y cyfnod hwn i symud cyllid rhwng blaenoriaethau.
- Y cyfraddau grant a ddynodwyd oedd y cyfraddau uchaf. Byddai'r union gyfraddau'n dibynnu ar y gwir brosiectau.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.11 Pwysleisiodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig cael cytundeb ar draws y pleidiau yngln â'r mesurau oedd yn cael eu cynnwys yn y papur ond yn anffodus nid oedd amser am drafodaeth fwy eang cyn y sesiwn llawn i drafod y dogfennau terfynol yr wythnos ganlynol. Nid oedd aelodau'r Pwyllgor yn hapus â'r ffordd yr oedd y tablau ariannol wedi'u cyflwyno ger bron y Pwyllgor mor hwyr. Ymddiheurodd Ysgrifennydd y Cynulliad am hyn ond dywedodd bod y dyddiad cau, sef 31 Hydref, ar gyfer cyflwyno dogfennau i'r Comisiwn yn golygu bod yr holl amserlen dan bwysau a bod y tablau ariannol wedi bod yn hwyr oherwydd hyn. Cytunwyd nad oedd modd cyrraedd penderfyniad ar y cyd yn y cyfarfod ac y byddai aelodau'r Pwyllgor yn ystyried y papurau ymhellach a rhoi gwybod am eu sylwadau i'r Clerc. Os gellid cael consensws efallai y byddai'r Pwyllgor yn cyflwyno gwelliant i'r cynnig i'w drafod mewn sesiwn llawn. Byddai'r Clerc yn cysylltu ag aelodau'r pwyllgor

yn ystod prynhawn 14 Hydref i gasglu eu sylwadau.

**Gweithredu**

Byddai'r Clerc yn cysylltu ag aelodau'r pwyllgor i gasglu eu sylwadau am bapur 8, yn enwedig eu syniadau am sut y dylid dyrannu'r blaenoriaethau ariannol i'r pum maes allweddol.

Byddai'r Cadeirydd a'r Clerc yn ystyried a ddylai'r Pwyllgor gyflwyno gwelliant i'r cynnig cyn ei sesiwn llawn ar 19 Hydref

Ysgrifennydd y Cynulliad i gyflwyno ffigyrau am faint o gyllid fyddai'n cael ei gyflenwi gan y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol (tabl 3.2)

**Cymhorthion Gweithredu**

4.12 Wrth gyflwyno papur EDC-08-99 (p2w) ar gymhorthion gweithredu, eglurodd Allan Moss mai'r nod oedd dangos sut oedd cymhorthion gweithredu yn wahanol i gymhorthion eraill a dangos sut y gellid eu defnyddio ym maes gofal plant. Roedd grp gwaith ar gymhorthion gweithredu wedi'i sefydlu gan y Gweithlu ac yn cyfarfod ar 14 Hydref. Roedd wedi cysylltu ag ardaloedd amcan 1 eraill i drafod eu cynnydd yn y maes hwn. Roedd yn rhaid i'r Trysorlys gytuno ar gymhorthion gweithredu penodol fel cyfraddau treth ond y gallai eraill gael eu datblygu gan awdurdod datganoledig, fel cymorth gofal plant, gwerthuso prosiect, rhaglenni SPUR a SMART. Atgoffwyd y Pwyllgor nad oedd yn rhaid cynnwys manylion cymhorthion gweithredu penodol yn y ddogfen raglennu unigol, ond bod yn rhaid nodi eu bod yn cael eu hystyried.

4.13 Bu trafodaethau wedyn pryd y codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cadarnhawyd bod trafodaethau wedi'u cynnal ag ardaloedd amcan 1 eraill (yn unol â'r cais yn y cyfarfod ar 29 Medi). Byddai cyfarfod gyda swyddogion o'r AMD yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol.
- Codwyd y cwestiwn am ostyngiadau yswiriant gwladol. Nodwyd bod hyn yn cael ei alw'n "gymorth cyflogaeth" yn hytrach na "chymorth gweithredu". Mae cymorth cyflogaeth yn cael ei weithredu trwy gymhorthdal cyflog uniongyrchol fel y Fargen Newydd.
- Y prif bryder am gymhorthion gweithredu oedd eu bod yn cael eu hystyried yn faich. Roedd hwn yn wariant nad oedd yn cael effaith ar weithrediadau cwmnïau e.e. lle y gallai cymhelliannau treth annog Y a D er enghraifft, byddai'r cwmnïau hynny oedd eisoes yn gwario at Y a D yn elwa er na fyddent yn gwario mwy ar Y a D efallai.
- Argymhellodd y Pwyllgor bod y pedair ardal amcan 1 yn cyflwyno achos ar y cyd i'r Trysorlys. Cadarnhawyd mai dyma oedd y swyddogion o'r Cynulliad yn ei gynnig.
- Roedd aelodau'n cwestiynu pam fod derbyniadau cymhorthion gweithredu gofal plant yn isel (fel a amlinellwyd ym mharagraff 16). Nid oedd y rheswm yn glir a dyma pam fod swyddogion yn bwriadu cysylltu â ChwaraeTeg. Roedd cynlluniau i ddatblygu hyn yn sectorau AU ac AB a'r gobaith oedd y byddai cyflogwyr yn cael eu hargyhoeddi o'u manteision.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.14 Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd cymhorthion gweithredu a dywedodd bod y Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater eto unwaith y byddai gwaith pellach wedi ei wneud.

**Gweithredu**

Adran Ysgrifenyddol y Pwyllgor i roi cymhorthion gweithredu ar agenda’n y dyfodol

**Eitem 5: Lledaenu ffyniant**

5.1 Ar gyfer gwybodaeth yn unig oedd y papur ar y cynllun Cymorth Detholedig Rhanbarthol. Roedd y map Ardaloedd Cynorthwyedig wedi’i anfon i Frwsel i’w ystyried ac ni ellid ei newid hyd nes y byddai’r Comisiwn yn ei ddychwelyd. Cytunodd y Pwyllgor i beidio trafod yr eitemau hyn oherwydd bod y cyfarfod yn rhedeg yn hwyr oherwydd y drafodaeth am gyllid Amcan 1.

**Eitem 6: ETAG**

6.1 Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau at y papurau a oedd wedi’u cylchredeg ymlaen llaw gan sefydliadau gyda diddordeb penodol yn ETAG o safbwynt datblygu economaidd. Dywedodd nad oedd siaradwyr wedi cael gwahoddiad oherwydd bod sefydliadau perthnasol wedi gwneud cyflwyniadau’n barod i’r Pwyllgor 16+. Roedd papur gan Adran Ysgrifenyddol y Pwyllgor yn tynnu sylw aelodau at y materion a oedd angen eu trafod er mwyn i argymhelliad gael ei wneud i’r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant 16+.

6.2 Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd croeso eang i adroddiad ETAG oherwydd bod y trefniadau blaenorol yn cael eu hystyried yn annerbyniol oherwydd eu bod wedi arwain at ddyblygu a chystadleuaeth.
- Roedd yn bwysig bod y cysylltiad rhwng argymhellion ETAG a’r Strategaeth Ddatblygu Genedlaethol a dogfennau rhaglen yn cael eu gwneud.
- Byddai’r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol yn caniatáu i’r galw am sgiliau’n y dyfodol gael ei ystyried a rhoi’r mecanweithiau darparu angenrheidiol ar waith.
- Roedd angen cydbwysedd rhwng CETW a’r strwythurau lleol/rhanbarthol. Cwestiynwyd a oedd angen strwythur ar lefel ranbarthol os oedd awdurdod yn cael ei ffurfio ar lefel Cymru gyfan.
- Roedd awgrym y gallai’r Cynulliad chwarae’r rôl genedlaethol, a byddai hyn yn gofyn am un corff cyhoeddus yn llai.
- Roedd y strwythur rhanbarthol eang arfaethedig yn ymgais i rannu’r boen yn gyfartal rhwng yr holl sefydliadau a fyddai’n colli cyfrifoldeb dan y system arfaethedig.
- Roedd gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant 16+ ddiddordeb penodol yn syniadau’r Pwyllgor Datblygu Economaidd am y ffordd y dylai’r gwaith a gaiff ei wneud gan y TECau gael ei gyflawni’n y dyfodol (yn hytrach na strwythur y drefn newydd).
- Dylid manteisio ar y cyfle i symleiddio’r swyddogaeth fentro yn hytrach na chreu corff newydd. Ystyriwyd y WDA fel posibilrwydd i gymryd y swyddogaethfentro drosodd yn lle’r TECau.
- Roedd disgwyl iddo gymryd rôl eang yn natblygiad economi Cymru, a gellid cynnwys datblygu sgiliau yn ogystal â datblygu busnes. Ystyriwyd a fyddai modd i’r WDA gyflawni archwiliad sgiliau ar lefel ranbarthol hefyd.
- Trafododd aelodau ar ba lefel yr oedd penderfyniadau’n cael eu gwneud orau. Cwestiynwyd pam bod angen cynghorau rhanbarthol a ffora datblygu economaidd rhanbarthol lle byddai’r aelodaeth yn gyffredin. Roedd angen i sawl partneriaeth a chonsortiwm gydweithio ar lefel leol hefyd. Nodwyd nad oedd gan ffora rhanbarthol staff gweinyddol ac felly ni fyddent yn gallu ymgymryd â’r rôl o gomisiynu hyfforddiant a phrosesu taliadau.
- Ni ddylai staff TECau deimlo bod y cynnig i ddiddymu’r TECau’n feirniadaeth o’u gwaith hwy, ond yn syml bod cyrff newydd fel y Cynulliad yn chwilio am ffyrdd newydd a mwy effeithiol o weithio.

- Roedd angen gwneud mwy na newid yr enw'n unig. Dylid cydnabod cyflawniadau TECau a gwrando ar leisiau cyflogwyr ar lefelau lleol a rhanbarthol.

5.3 Tynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at y pwyntiau a amlinellwyd i'w hystyried yn y papur eglurhaol (EDC-08-99 p5w).

- Pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i sicrhau bod y strategaeth a gynigiwyd gan ETAG yn adlewyrchu'r amcanion strategol a amlinellwyd yn y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol.
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Consortia Cymuned a gynigiwyd yn gyson ag agwedd becyn at weithredu a gynigiwyd ar gyfer Amcan 1, er ei fod yn ymwybodol o'r broblem o gael pobl yn eistedd ar ormod o bwyllgorau.
- Roedd addysg blynyddoedd cynnar yn hanfodol ac roedd angen sicrhau ymyrraeth gynnar.
- Dylid ymestyn targedau i gynnwys NVQ lefel 5 a chymwysterau cyfwerth. Roedd y Pwyllgor yn bryderus am y lefel is o dargedau ac yn cytuno y dylid cael ystod eang o dargedau.
- Dylai targedau nodi sectorau neu bynciau unigol sy'n haeddu sylw arbennig, er enghraifft prentisiaethau modern.
- Ni ystyriwyd bod targedau NEDS ar gyfer cyfleoedd cyfartal yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol yn adroddiad ETAG. Teimlai rhai aelodau'n gryf bod problem economaidd oherwydd bod rhai grwpiau'n cael eu heithrio o'r gweithle, ond roedd eraill o'r farn bod gormod o bwyslais yn cael ei roi ar gyfleoedd cyfartal a oedd yn niweidiol i'r problemau sy'n wynebu busnesau.
- Teimlwyd nad oedd digon o bwyslais ar sgiliau sy'n gysylltiedig â TCG.
- Roedd trafodaeth am elfen fentro TECau ac a ddylid trosglwyddo hyn i'r WDA. Un ddadl oedd i rannu'r WDA i bob pwrpas fel bod un rhan yn delio â buddsoddiad mewnol a'r rhan arall yn delio â busnes cynhenid. Er hynny, roedd hyn yn symud i ffwrdd o'r thema ganolog o geisio rhesymoli darpariaeth. Teimlwyd bod diwylliant y WDA yn ffafrio buddsoddiad mewnol a bod angen newid y diwylliant hwn yn hytrach na newid y strwythur.
- Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn fodlon â'r cynigion i ddiddymu TECau ar yr amod y ceid cartref boddhaol i swyddogaeth y fenter. Derbyniodd aelodau'r egwyddor o newid ond roeddent o'r farn bod angen ystyried y manylion ymhellach.
- Roedd y Pwyllgor yn anghytuno gyda chreu chwango newydd.
- Roedd y Pwyllgor yn fodlon awgrymu, ar sail tystiolaeth bresennol, mai'r WDA oedd y cartref amlwg i gymorth TECau i fusnesau bach.
- Roedd yr amserlen ar gyfer gweithredu'r cynigion yn achos pryder i aelodau.
- Credai aelodau y dylent archwilio 'sgiliau Cymru'n y dyfodol' ymhellach.
- Mae'n rhaid cael cynrychiolaeth fusnes ar bob lefel o'r strwythur arfaethedig.

**Crynodeb y Cadeirydd**
5.2 Roedd y Cadeirydd yn crynhoi fel a ganlyn:

- Roedd y Pwyllgor yn cefnogi amcan cyffredinol y cynigion ac yn croesawu'r ymdrech i resymoli'r system bresennol, gan ostwng lefel dyblygu a chystadlu rhwng darparwyr.
- Cynigion ETAG fyddai un o'r prif fecanweithiau darparu ar gyfer y Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol. Roedd yn hanfodol felly bod y Strategaeth yn rhoi gwybod ar ba sail y nodwyd a darparwyd y galw am sgiliau'n y dyfodol. Roedd hefyd angen sicrhau bod cynlluniau gan y sefydliadau lleol a rhanbarthol a gynigiwyd o ganlyniad i'r adroddiad yn gyson â strategaethau lleol a rhanbarthol sy'n cael eu datblygu fel rhan o raglenni Amcan 1, 2 a 3.

- Roedd angen adlewyrchu diddordebau busnes yng nghyfansoddiad y byrddau arfaethedig ar bob lefel.
- Derbyniwyd diddymiad y TECau ar yr amod bod trefniadau addas yn cael eu gwneud ar gyfer y swyddogaeth fentro.
- Dylid defnyddio’r ad-drefniant i symleiddio yn hytrach na chymhlethu mecanweithiau darparu cymorth ar gyfer busnesau bach.
- Dymunai’r Pwyllgor ystyried cynigion pellach ar gyfer darparu’r swyddogaethau fentro.

**ADRAN YSGRIFENYDDOL Y PWYLLGOR**

**HYDREF 1999**